



barcud

CYLCHLYTHYR
July 2022

Neges gan Steve Jones Prif Weithredwr y Grŵp

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Grŵp Monitro Barcud am y croeso cynnes a gefais yn ei gyfarfod yn ddiweddar. Roedd yn wych gallu cwrdd wyneb yn wyneb a mwynhau clywed am yr holl waith y mae'r Grŵp wedi bod yn ei gyflawni. Mae llawer o gymdeithasau tai'n eiddgeddus iawn o'r ffaith bod gennym grŵp mor rhagweithiol a brwdfrydig o bobl.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i estyn fy llongyfarchiadau cynhesaf i Paul Clasby, Cadeirydd Grŵp Monitro Barcud am ennill 'Tenant y Flwyddyn' yng ngwobrau Arfer Da Cenedlaethol TPAS Cymru ar y 6ed o Orffennaf.

Gwobrau

Cyrhaeddodd Barcud y rhestr fer a'r rownd derfynol yng Ngwobrau Eiddo Cymru eleni. Mae'r gwobrau yn rhoi sylw i'r datblygiadau mwyaf blaenllaw ac yn cydnabod y bobl, y busnesau a'r cwmnïau profesiynol a wnaeth iddynt ddigwydd.

Llwyddodd datblygiad Barcud ym Maes Corton, Llanandras, ar y cyd â Hughes Architects, SJ Roberts Construction a Morris, Marshall and Poole,



i gyrraedd y rhestr fer yn y categori Datblygiad Preswyl y Flwyddyn. Roedd yn anrhydedd mawr i'r tîm Datblygu, ac er na lwyddwyd i gipio'r tlws roedd y ffaith bod aelodau'r tîm wedi cyrraedd y rhestr fer oherwydd y datblygiad ardderchog hwn yn dyst i'w holl waith caled a'u hymrwymiad. Roedd y datblygiad yn un o'n prosiectau mwyaf blaenllaw yn ystod y 12 mis diwethaf.

Rhentu Cartrefi

Mae tîm Tai Barcud wedi bod yn treulio'r 6 mis diwethaf yn gweithio ar Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) (2016) a'r hyn y bydd y newidiadau'n ei olygu mewn gwirionedd i'n tenantiaid. Mae Eleri Jenkins, ein Cyfarwyddwr Tai, wedi dod â thîm o arbenigwyr ynghyd i weithio ar eich rhan er mwyn sicrhau bod y broses o bontio i'r cytundebau tenantiaeth newydd a grëwyd gan Lywodraeth Cymru yn broses mor hwylus ag sy'n bosibl i holl denantiaid Barcud. Yn ddiweddar, cafodd y dyddiad lansio ei symud unwaith eto o 15 Gorffennaf i fis Rhagfyr

2022, a byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau â chi'n gyson wrth iddynt ddigwydd. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar dudalen 9.

Cymorth

Mae'r gwaith y mae gwirfoddolwyr sy'n rhedeg oergelloedd cymunedol a banciau bwyd ar draws Cymru wedi'i gyflawni yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn aruthrol – mae llawer wedi rhoi cymorth ac mae llawer wedi cael cymorth. Mae ein tîm Cynnal yn ddiolchgar iawn am y cymorth sydd wedi bod ar gael i'r sawl sydd mewn angen. Wrth i bris tanwydd yn ogystal â phris bwyd gynyddu'n sylweddol, bydd angen i lawer mwy o bobl droi at fanciau bwyd er mwyn cael nwyddau angenrheidiol yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

Os ydych chi'n ei chael yn anodd neu os hoffech chi gael cymorth ariannol, mae croeso i chi gysylltu â thîm Cynnal. O gyngor ariannol i help gyda budd-daliadau a chymorth arall y mae gennych hawl iddo, mae aelodau'r tîm yma i'ch helpu os ydych yn ei chael yn anodd cael deupen llinyn ynghyd.

cynnal@barcud.cymru

Ymweliad Sydyn

Roedd yn fraint cael croesawu Eluned Morgan, Gweinidog Llafur Cymru, i safle Creuddyn ym mis Mehefin. Gwnaeth yr adeilad a'r cyfleusterau argraff fawr arni, ac mae wedi gofyn am gael dod yn ôl yn fuan er mwyn ystyried defnyddio'r cyfleusterau cynadledda ar gyfer cyfarfodydd yn y canolbarth.



Diweddariad gan Grŵp Monitro Barcud

Annwyl gyd-denantiaid,

Yn ôl yr arfer, mae aelodau'r Grŵp wedi bod yn brysur iawn yn gweithio mewn partneriaeth â Barcud yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf gan ganolbwyntio ar y cyd ar yr argyfwng "Costau Byw" sy'n effeithio ar bob un ohonom. Un o'r prif bryderon fu'r modd y mae biliau ynni wedi cynyddu'n ddiweddar, a'r hyn y gall Barcud ei wneud drwy ei Strategaeth Ddatgarboneiddio i'n cynorthwyo i leihau ein defnydd o ynni. Cytunwyd eisoes i fabwysiadu dull gweithredu sy'n ystyried adeiladwaith yn gyntaf er mwyn gwella lefelau effeithlonrwydd ynni ein cartrefi a sicrhau bod y gwres a gynhyrchir gennym yn aros ynddynt. Mae'r dull hwn o weithredu'n cynnwys pethau megis inswleiddio lloffydd, gosod ffenestri a drysau newydd os oes angen, inswleiddio walïau dwbl neu walïau allanol os oes modd, gosod paneli solar os oes modd a gosod systemau gwresogi sy'n effeithlon dros ben. Yn anffodus, am nifer o resymau, nid yw hynny'n mynd i ddigwydd dros nos ond mae camau'n cael eu cymryd eisoes i adnabod y cartrefi lle mae angen gwneud peth o'r gwaith hwn ar fyrder.

Mae'r Grŵp hefyd yn crynhoi syniadau ar gyfer fforwm ar-lein lle gall trigolion o'r gymuned ehangach rannu awgrymiadau am ffyrdd o arbed arian, a hyrwyddo sefydliadau lleol megis Bwyd Dros Ben Aber sy'n casglu bwyd o archfarchnaoedd lleol ac yn ei gynnig yn gyfnewid am rodd.

Nid ar gyfer tenantiaid Barcud yn unig y bydd y fforwm ond byddwn yn gofyn i Barcud ein cynorthwyo i'w hyrwyddo. Hoffem ddiolch yn

arbennig i Janet Ramsey (Pennaeth Atgyweirio Ymatebol ac Eiddo Gwag, Y Dwyrain) am y syniad hwn.

Mae aelodau'r Grŵp, sydd i gyd yn denantiaid Barcud, wedi gofyn i fi eich rhybuddio am gynllun "Dim Llwyddiant, Dim Ffi" a allai gostio arian i chi. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r aelodau wedi gweld cynnydd enfawr yn nifer y cwmnïau ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol, sy'n cynnig mynd â hawliadau'n ymwneud â diffyg gwaith atgyweirio i'r llys ac sy'n cynnig cynllun "Dim Llwyddiant, Dim Ffi". Dylech nodi y bydd gofyn i chi, yn rhan o'r broses, ymrwymo i Gytundeb Credyd ac y gallai ffioedd y cwmni dan sylw fod yn fwy na'r iawndal y byddech yn ei gael pe baech yn llwyddiannus. Os bydd hynny'n digwydd, bydd yn ofynnol i chi dalu'r swm sy'n weddill ynghyd â llog o 39% neu fwy. Byddwch yn ofalus, a chofiwch fod eich rhent yn cynnwys atgyweirio eich cartref ac y dylech gysylltu â Barcud yn gyntaf ynaglŷn â gwaith atgyweirio.

Rydym hefyd wedi sylwi ar gynnydd yn nifer y sgamïau sy'n digwydd ar-lein a thros y ffôn. Byddwch yn ofalus, a pheidiwch â rhoi manylion eich cerdyn banc na'ch cerdyn debyd neu gredyd i neb. Cysylltwch yn uniongyrchol bob amser â'r cwmni yr ydych yn delio ag ef, a gofynnwch iddo a yw wedi cysylltu â chi. Byddwch yn ofalus. Gwnewch ymholiadau os nad ydych yn siŵr.

Cymerwch ofal.

Pob hwyl,

Paul Clasby, Cadeirydd.



Cystadleuaeth Lluniau o Erddi

Mae'r adeg yna o'r flwyddyn wedi cyrraedd unwaith eto, a hoffem eich gwahodd i gymryd rhan yn ein cystadleuaeth arddio flynyddol.

Eleni eto rydym yn gofyn i chi anfon eich lluniau atom ond, diolch i'r drefn, rydym wedi gallu ailgyflwyno dau categori y bu'n rhaid i ni eu hatal y llynedd oherwydd y Coronafeirws.

Y cyfan y mae'n rhaid i chi ei wneud yw mynd am dro o amgylch eich gardd gyda'ch camera a rhannu eich lluniau â ni. Gallwch eu hanfon drwy ebost, neu'u hargraffu (os oes yna argraffydd y gallwch ei ddefnyddio) a'u hanfon atom drwy'r post.

Mae garddio'n wych i'ch iechyd a'ch lles. Mae gardd liwgar a diddorol nid yn unig yn gwneud gwahaniaeth i'ch eiddo chi ond hefyd yn gallu bod o fudd i'r amgylchedd a'r gymuned yr ydych yn byw ynddi.

Bydd enillydd pob categori'n cael taleb gwerth £50 i'w gwario mewn canolfan arddio. Bydd enwau'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn rhifyn nesaf y llythyr newyddion. Pob lwc i bawb.



Dyma'r categorïau:

1. Arddangosfa flodau orau (gardd breifat)
2. Basged grog, llestr blodau neu flwch ffenestr gorau
3. Gardd lysiau orau
4. Arddangosfa flodau orau mewn llestr anarferol
5. Nodwedd orau sy'n garedig i bryfed neu'r amgylchedd/bywyd gwyllt mewn gardd (i rai dan 16 oed)
6. Gardd orau mewn cynllun tai gwarchod
7. Gardd gymunedol orau (nad yw mewn cynllun)



Anfonwch lun o'ch ymgais chi, gan nodi'n glir rif y categori yr ydych am gystadlu ynddo, yn ogystal â'ch enw a'ch cyfeiriad yn llawn. At ddibenion dilysu, rhaid eich bod chi yn y llun gyda'ch ymgais. Rhaid i luniau gael eu hanfon heb eu bod wedi'u golygu yn ddigidol ond caniateir i chi eu tocio, addasu lefel y golau ac eglurder y llun, a gwneud mân gywiriadau i'r lliwiau.

Mae'r telerau a'r amodau ynghyd â'r ffurflen gais i'w gweld ar ein gwefan: barcud.cymru



Dylech anfon eich lluniau i'r cyfeiriad canlynol: Cystadleuaeth Arddio 2022, d/o Alisa Cakebread, Barcud, Tŷ Canol House, Ffordd Croesawdy, Y Drenewydd, Powys SY16 1AL neu drwy ebost at Alisa.Cakebread@barcud.cymru
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn lluniau yw dydd Gwener 12 Awst.

Pen-blwydd Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau mawr i Bill a Carol Irving o Aberteifi a fu'n dathlu 60 mlynedd o briodas yn ddiweddar.

Trefnodd eu teulu barti syrpreis ar eu cyfer ym Mroteifi, Aberteifi a chawsant dusw o flodau a chacennau gan Barcud. Cawsant gerdyn gan y Frenhines hefyd i'w llongyfarch.


Mae croeso i chi gysylltu os hoffech rannu pen-blwydd neu ddiwyddiad arbennig â ni.



I Ble Mae Eich Rhent yn Mynd

Gwariant am bob punt

- Gwaith rheoli
- Gwaith atgyweirio o ddydd i ddydd
- Gwella cartrefi
- Llog sy'n daladwy ar fenthyciadau
- Costau eraill



Sut y mae Barcud yn cymharu â chymdeithasau tai eraill yng Nghymru o safbwynt darparu Gwerth am Arian i'n tenantiaid.

	Barcud	Cyfartaledd yng Nghymru
Costau rheoli am bob uned tai cymdeithasol	£1,107	£1,218
Costau gweithredu am bob uned tai cymdeithasol	£2,491	£3,349
Costau atgyweirio adweithiol am bob uned tai cymdeithasol	£1,131	£1,179

Y Jiwbilî



Gwnaeth llawer o'n tenantiaid fwynhau penwythnos gŵyl y banc hirach nag arfer ar gyfer Jiwbilî'r Frenhines. Rydym yn gobeithio eich bod wedi cael cyfle i fwynhau gyda'ch teulu a'ch ffrindiau. Dyma rai lluniau o ddathliadau'r Jiwbilî yn rhai o gynlluniau tai gwarchod Barcud. Diolch i'r staff am eu holl waith caled ac i'r tenantiaid am eu brwdfrydedd – cafodd pawb lawer o hwyl!



Dyma ddywedoch chi, dyma wnaethom ni

Apwyntiadau Medra

Ar ôl ymgynghori â thenantiaid, gallwn yn awr gynnig apwyntiadau Medra hyd at 5pm ar gyfer gwaith atgyweirio. Ffoniwch 0300 111 3030 i roi manylion y gwaith atgyweirio y mae angen ei wneud, a bydd aelod o dîm Medra yn eich ffonio'n ôl i drefnu apwyntiad ar adeg sy'n gyfleus i chi.

Ambell Air o Gyngor

Ceisiwch wneud un golch yn llai bob wythnos a sicrhewch eich bod yn llenwi'r peiriant bob tro.

Y Fforwm Cynlluniau Tai Gwarchod yn ei ôl



Prin y gallem fod wedi dychmygu'r siwrnai hir a oedd o'n blaen pan ddechreuodd y cyfnod clo yn 2020. Ddydd Gwener 13 Mai, medrodd y Fforwm Cynlluniau Tai Gwarchod aildechrau cwrdd ym Mhenrodyn, Aberaeron.

Roedd tri deg ac un o denantiaid yn bresennol o bob cynllun. Roedd yn hyfryd iawn clywed yr ystafell yn llawn o sgwrsio a chwerthin.

Daeth y ddeuawd M&M, sef Malcolm a Martin, i'n diddanu a gwnaeth pob un ohonom fwynhau cyd-ganu rhai caneuon adnabyddus dros baned o de a chacennau blasus.

Caiff cyfarfodydd y Fforwm eu cynnal ar ail ddydd Gwener y mis bob deufis. Felly, os ydych yn byw yn un o'n cynlluniau tai gwarchod ac os hoffech ymuno'n rhad ac am ddim mewn bore difyr, cadwch eich llygaid ar agor am bosteri'r Fforwm ar eich hysbysfwrdd a rhowch wybod i'ch cydlynnydd cynllun. Caiff cludiant ei ddarparu'n rhad ac am ddim, a bydd croeso cynnes a phaned o de a bisgien yn eich disgwyl bob amser!



Ambell Air o Gyngor

Prynwch bethau ail-law.

Ambell Air o Gyngor

Peidiwch â gorlenwi'r tegell.

Cacfen Hawdd Eadie

Bydd pawb sydd wedi bod i un o gyfarfodydd Grŵp Monitro Barcud yn gwybod mor flasus yw'r gacfen hon. Mae Eadie (sy'n aelod o'r grŵp) yn pobi un ar gyfer pob achlysur.

Os nad ydych wedi rhoi cynnig ar bobî cacfen erioed o'r blaen, beth am roi cynnig ar hon? Mae'n rhatach ac yn fwy blasus o lawer nag unrhyw gacennau a gewch mewn siop. Os nad ydych yn bobî llawer o gacennau, beth am rannu cost y cynhwysion â ffrind neu gymydog? Mae cael diwrnod bobî a rhannu'r costau yn ffordd o arbed arian ac o gymdeithasu ar yr un pryd! Y cyfuniad perffaith!

Cynhwysion

250g / 8oz o flawd codi

½ llwy de wastad o sbeis cymysg mâl

Pinsiaid o halen

125g / 4oz o siwgr brown meddal

300-350g / 10-12oz o ffrwythau cymysg

30g / 2oz o geirios glacé

2 wy o faint canolig

125ml / 4floz o olew (olew llysiâu/blodau'r haul neu hadau rêp)

125ml / 4floz o laeth

½ llwy de o rinflas almon

1oz o siwgr Demerara i'w wasgaru ar dop y gacfen



Paratoi

Cynheswch y ffwrn nes bod y tymheredd yn cyrraedd marc nwy 2 / 150°C.

Defnyddiwch dun sgwâr 7 modfedd neu dun crwn 8 modfedd.

Leiniwch y tun â phapur bobî.

Dull

- Hidlwch y blawd, y sbeis a'r halen i mewn i bowlen gymysgu.
- Ychwanegwch weddill y cynhwysion sych (ar wahân i 1oz o siwgr Demerara).
- Curwch yr wyau, yr olew, y llaeth a'r rinflas almon yn ysgafn mewn jwg i'w cyfuno.
- Ychwanegwch y cymysgedd gwlyb yn raddol at y cynhwysion sych.
- Defnyddiwch lwy bren i guro'r cymysgedd yn ysgafn am 3-4 munud (neu defnyddiwch beiriant blendio bwyd â llaw am 1-2 funud) nes bod y cyfan wedi cymysgu'n dda.
- Arllwyswch y cymysgedd i mewn i'r tun bobî. Gwasgarwch weddill y siwgr Demerara ar dop y gacfen a phobwch y gacfen yn hanner uchaf y ffwrn am 2 awr.
- Gwthiwch sgiwer i mewn i ganol y gacfen. Os bydd yn dod allan yn lân (heb fod olion cymysgedd y gacfen arno), bydd y gacfen yn barod!
- Tynnwch y gacfen allan o'r ffwrn a gadewch iddi oeri yn y tun cyn ei thynnu allan.
- Lapiwch y gacfen oer mewn papur bobî. Gallwch ei mwynhau am hyd at 3 mis (os gallwch ei chadw am gymaint â hynny!)

Ambell Air o Gyngor

Trowch eich thermostat i lawr ryw ychydig. Un o'r ffyrdd symlaf o arbed ynni yw drwy droi eich gwres i lawr un radd. Efallai eich bod yn meddwl nad yw un radd yn gwneud llawer o wahaniaeth – ond, yn ôl yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, gall gostwng eich thermostat o 20°C i 19°C (er enghraifft) arbed 10% ar eich bil gwresogi.

Deddf Rhentu Cartrefi 2016

Beth y mae angen i chi ei wybod.

Mae Llywodraeth Cymru yn newid y gyfraith ynghylch sut y mae tenantiaid yn rhentu eiddo yng Nghymru. Mae'r newid yn berthnasol i landlordiaid preifat a chymdeithasol ledled Cymru.

Yr hyn y bydd y newidiadau'n ei olygu:

- Bydd gennych fwy o hawliau olyniaeth i'w trosglwyddo o ran eich cartref
- Bydd tenantiaid yn cael eu galw'n ddeiliaid contract
- Bydd pob eiddo'n ddiogel ac yn addas i fyw ynddo
- Ni fydd y newidiadau'n effeithio o gwbl ar eich rhent ac ni fyddant yn costio mwy i chi
- Rhaid i landlordiaid roi 2 fis o rybudd i denantiaid am unrhyw gynnydd yn y rhent
- Bydd modd i eiddo y cefnwyd arno gael ei adfeddu gan landlordiaid heb orchymyn llys, cyhyd â bod ymchwiliadau wedi cael eu cynnal

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ddeddf newydd, sef Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae croeso i chi anfon ebost i post@barcud.cymru neu ffonio 0300 111 3030

Newid yn yr eirfa

Bydd **tenant** yn cael ei alw'n **ddeiliaid contract** (y person sy'n rhentu'r cartref)

Bydd **cytundeb tenantiaeth** yn cael ei alw'n **contract meddiannaeth** (y ddogfen a gewch pan fyddwch yn symud i mewn i'ch cartref newydd)

Pryd y bydd y newid yn digwydd?

Ym mis Rhagfyr 2022, bydd eich cytundeb tenantiaeth yn troi'n awtomatig yn contract meddiannaeth a byddwch yn cael copi ohono ar gyfer eich cofnodion

A fydd fy rhent yn newid?

Na fydd

A fydd angen i fi wneud unrhyw beth?

Bydd yn rhaid i chi ddarllen y contract meddiannaeth newydd ac ymgyfarwyddo ag ef



ANGEN CYMORTH IECHYD
MEDDWL A LLESIANT?

FFONIWCH 111 OPSIWN 2

- Am gyngor neu bryderon iechyd meddwl, i chi neu anwylyd, ffoniwch 111 opsiwn 2 rhwng 9am a 11.30pm, 7 diwrnod yr wythnos a siaradwch â'n tîm ymroddedig.
- Ar gyfer pobl o bob oed ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.
- Mewn sefyllfaoedd sy'n peryglu bywyd, ffoniwch 999 bob amser neu ewch i'r adran damweiniau ac achosion brys.

GIG 111 Cymru
NHS 111 Wales

 GIG
CYMRU
NHS
WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Eisteddfod 2022

Mae gennym ddwy set o docynnau teulu (2 oedolyn a 2 blentyn), sy'n werth £50 yr un, i'w rhoi am ddim ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Bydd yr Eisteddfod yn dechrau ddydd Sadwrn 30 Gorffennaf ac yn cael ei chynnal bob dydd tan ddydd Sadwrn 6 Awst.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn symud o amgylch Cymru, ac roedd disgwyl iddi gael ei chynnal yn Nhregaron yn 2020. Yn anffodus, fel popeth arall yn ystod 2020, cafodd y digwyddiad ei ohirio. Bydd gan Barcud stondin ar y Maes a bydd yn noddi 'Maes D', sef yr ardal i ddysgwyr. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar wefan yr Eisteddfod. Os nad ydych erioed wedi bod i'r Eisteddfod, mae'n ddiwrnod gwych allan.

Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw:

1. ebostiwch eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt atom: Post@barcud.cymru a rhowch EISTEDDFOD yn y blwch pwnc neu

2. ffoniwch 0300 111 3030 i adael eich manylion gydag un o'r tîm.

Dyddiad cau: 12 canol dydd dydd Gwener, 29 Gorffennaf 2022. Bydd yr enillydd yn cael ei dynnu ar hap am 6pm ar yr un diwrnod.

Costau Byw

Mae pob un ohonom yn teimlo'r esgid yn gwasgu ar hyn o bryd wrth i ni geisio cynyddu ein hincwm er mwyn talu ein costau byw sy'n cynyddu. Mae'r Llywodraeth yn San Steffan wedi darparu arian ychwanegol, a bydd llawer o aelwydydd agored i niwed yn gallu cael cymorth ar ffurf un taliad er mwyn ceisio eu helpu i ymdopi â'r holl straen a'r holl drafferthion.

Os ydych yn ei chael yn anodd neu os hoffech siarad â rhywun am eich sefyllfa ariannol, mae croeso i chi ffonio tîm Cynnal Barcud. Mae aelodau'r tîm wrth law i helpu pob un o denantiaid Barcud.

0300 111 3030

Mae gwybodaeth ychwanegol i'w chael hefyd ar [wefan gov.uk](http://www.gov.uk)

<https://www.gov.uk/government/publications/cost-of-living-support/cost-of-living-support-factsheet-26-may-2022>

I Gysylltu â Barcud

Dros y Ffôn

Ffoniwch 0300 111 3030

Pwyswch 1 (tenantiaid TC blaenorol)
Gwasg 2 (tenantiaid blaenorol MWAH)

Tenantiaid Newydd Barcud?

Eisiau gwybodaeth leol am ein gwaith?

Pwyswch 1: Os ydych yn byw yng Ngheredigion

Pwyswch 2: Os ydych yn byw ym Mhowys

Trwy'r Post

Barcud, Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan,
Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7HH

Ar-lein

barcud.cymru

Llenwch y ffurflen 'cysylltu â ni' o'n gwefan

Ebst: post@barcud.cymru

Facebook: Barcud

Twitter: [@taibarcud](https://twitter.com/taibarcud)